



Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019 / 20

Cynllun ffioedd a mynediad 2019/20: ffocws a chynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL

Nod trosgynnol cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 Grŵp Colegau NPTC (y Grŵp) yw parhau i fuddsoddi incwm yn strategol mewn gweithgareddau ac ymyraethau i gyflawni amcanion strategol y Grŵp ac annog grwpiau a dangynrychiolir i gymryd rhan mewn addysg uwch. Mae Grŵp Colegau NPTC yn gwbl ymroddedig i annog cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir a hyrwyddo addysg uwch. Bydd y cynllun hwn yn parhau â'r gwaith cadarnhaol y mae'r Grŵp eisoes wedi'i gwblhau i sicrhau cyfle cyfartal ar draws Cymru a'r rhanbarthau y mae'r Colegau wedi'u lleoli ynddynt. Wrth ymdrin â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch mae'r Grŵp yn ymrwymo 14.3% o'r incwm y bydd yn ei gynhyrchu mewn ffioedd myfyrwyr 2019/20, gan gyfateb i £107,000. Mae targedau cynllun ffioedd a mynediad y Grŵp wedi'u halinio â'r dangosyddion perfformiad allweddol yn Strategaeth Addysg Uwch 2016-2021 y Grŵp, sydd wedi'u trefnu o dan dri chategori; Newidiadau Myfyrwyr, Safonau a Pherfformiad a Phrofiad Myfyrwyr. Mae cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 ar gyfer Grŵp Colegau NPTC yn adeiladu ar gynllun ffioedd a mynediad 2018/19 gan gefnogi datganiad cenhadaeth y Grŵp 'Ysbrydoli Dysgu, Cyfoethogi Bywydau, Darparu Llwyddiant'. Mae datganiad cenhadaeth y Grŵp wedi'u hategu gan weledigaeth y Grŵp sy'n datgan y bydd y Grŵp, erbyn 2019, yn:

- Bartner allweddol mewn rhwydweithiau strategol;
- Coleg sy'n darparu dysgu ac addysgu rhagorol;
- Coleg mentrus ac entrepreneuraid;
- Coleg sy'n paratoi myfyrwyr yn llwyddiannus ar gyfer cynnydd cadarnhaol;
- Arweinydd cydnabyddedig wrth ddefnyddio technoleg;
- Cyflogwr o ddewis;
- Dewis y cyflogwr ar gyfer dysgu ac ennyn diddordeb;
- Coleg sy'n helpu taclo tlodi trwy wella ffyniant economaidd;
- Coleg sy'n hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae gweithgareddau strategol a gweithredol y Grŵp wedi'u llywodraethu gan set graidd o werthoedd sy'n cefnogi cyfle cyfartal ac yn hyrwyddo Addysg Uwch i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Mae datganiadau gwerth y Grŵp yn ein hymrwymo i fod yn:

- Sefydliad sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr a dysgu yn ein gweithredoedd;
- Gofalgar ac yn gynhwysol yn ein hagweddau;
- Cyfrifol ac yn llawn parch yn ein hymddygiad;

- Ymrwymedig i gael ein harwain gan egwyddorion gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Proffesiynol ac yn gorfforaethol yn ein hymddygiad;
- Mentrus ac yn flaengar yn ein hagwedd;
- Goddefgar ac yn gefnogol yn ein hymatebion.

Mae pennu targedau a chyflwyno gweithgareddau, digwyddiadau ac ymyraethau i gefnogi cyflwyno'r Cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 yn deillio o ddysgu a gwerthuso yn sgil llwyddiant targedau cynlluniau ffioedd blaenorol ac adborth o nifer o fecanweithiau gan gynnwys y rhai gan staff, myfyrwyr, arolygon, adroddiadau, sicrwydd ansawdd mewnol, arholwyr allanol, adolygiadau ansawdd allanol etc. Mae ffocws a chynnwys y cynllun ffioedd a mynediad yn seiliedig ar weithgareddau a mentrau i ddenu a chefnogi'r holl fyfyrwyr, ac yn enwedig y rhai o grwpiau a dangynrychiolir i astudio addysg uwch, cwblhau eu rhaglen astudiaeth yn llwyddiannus a symud ymlaen ohoni.

LLAIS Y MYFYRWYR

Crëwyd Undeb Myfyrwyr ym mis Mai 2017 ac mae cynrychiolwyr yr Undeb Myfyrwyr yn cwrdd yn rheolaidd â staff yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae'r Undeb Myfyrwyr yn cynrychioli corff myfyrwyr y Grŵp, gan gynnwys myfyrwyr Addysg Uwch, gan ddarparu llais i fyfyrwyr ar draws y sefydliad o lefel rhaglenni i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Mae myfyrwyr yn cael eu rhoi wrth wraidd y profiad dysgu, mae eu barn yn cael ei hystyried yn rheolaidd ac maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae gan staff a myfyrwyr fel ei gilydd rolau a chyfrifoldebau i gynnal a gwella'r profiad i fyfyrwyr. Crëwyd y Siarter Myfyrwyr Addysg Uwch gan y Grŵp i annog ymrwymiad yr holl staff a myfyrwyr i egwyddor partneriaeth ac egluro ar ba sail y mae'r bartneriaeth honno'n seiliedig.

Mae Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr y Grŵp yn canolbwyntio ar gynnwys myfyrwyr o dan bedwar edefyn:-

- Ymgeiswyr a Myfyrwyr Unigol,
- Cynrychiolwyr Myfyrwyr,
- Rhaglenni Bwsariaeth, Ysgoloriaeth a Llysgennad, a'r
- Undeb Myfyrwyr.

Mae'r Grŵp yn gweithredu system Cynrychioli Myfyrwyr, gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr addysg uwch wedi'u hethol a'u hyfforddi bob blwyddyn i gynrychioli'r holl raglenni Addysg Uwch. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn hanfodol i siapio'r profiad i fyfyrwyr ac maent yn gweithredu fel cyswllt rhwng eu cymheiriaid, yr ysgol academaidd a'r uwch dîm rheoli.

Mae'r Myfyriwr Llywodraethwr yn aelod etholedig o gorff llywodraethu'r grŵp ac yn darparu mewnwelediad i'r profiad o fod yn fyfyriwr. Mae'r Myfyriwr Llywodraethwr yn cael cyfle i roi sylwadau ar bolisiau'r Grŵp a chynlluniau i wella profiadau a chanlyniadau myfyrwyr. Cynrychiolir myfyrwyr ar brosesau adolygu'r Grŵp ac maent yn darparu adborth trwy ymatebion i arolygon sydd oll yn cyfrannu at bennu'r

cyfeiriad ar gyfer gwella. Mae myfyrwyr yn cymryd rhan wrth adnabod themâu a phrosiectau ar gyfer gwelliant gyda myfyrwyr yn cymryd rhan yn weithredol mewn adolygu modiwlau, Pwyllgorau Rhaglen a'r system adborth myfyrwyr ar-lein Vocal Eyes.

Mae cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar y Bwrdd Llywodraethu ac mae'r Grŵp wrthi'n adolygu sut i wella cynrychiolaeth myfyrwyr ar draws y Grŵp. Fodd bynnag, mewn Sefydliad bach a leolir dros safleoedd niferus, mae cael cyfranogiad myfyrwyr cynrychioliadol ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn heriol. Mae cynnig i gynnwys ymgynghorydd myfyriwr wedi'i gyfethol i'r bwrdd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor y Cadeiryddion ac ar fin cael ei drafod gan y Corff Llywodraethu ac mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried swyddi sabothol â thâl.

Mae'r holl ddarpariaeth yng Ngrŵp Colegau NPTC wedi'i dylunio i fod yn hygyrch i bawb ac yn hyblyg er mwyn gweddu i anghenion y dysgwyr. Mae'r dulliau cyflwyno'n amrywio ac mae cyfleoedd ar gyfer y rhai y mae angen iddynt ffitio eu hastudiaethau o fewn ac o gwmpas eu cyfrifoldebau gweithio neu ofalu. Trwy'r Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr mae'r Grŵp yn gwneud y newid tuag at fyfyrwyr fel cyfranogwyr gweithredol gan adlewyrchu egwyddor y Datganiad Cymru Doeth ar y Bartneriaeth Addysg Uwch. Mae'r Grŵp yn ymroddedig i oresgyn y rhwystrau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad "Chwalu'r Ffiniau i Gyfleoedd Myfyrwyr a Gweithredu Cymdeithasol Ieuenctid". Trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys cynnig bwrsariaethau a Chronfa Galedi Addysg Uwch, amserlennu i ffitio o gwmpas ymrwymadau teuluol a magu plant, mae'r rhain hefyd wedi'u dylunio i gynnwys y rhai sydd angen gweithio a'r rhai sydd eisiau gwirfoddoli ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Gwneir mynediad a chyfeirio at gyngor a chefnogaeth mor hawdd â phosib, gan gynnwys cyllid, gyrfaoedd, cwnsela, iechyd meddwl, menter a chefnogaeth sgiliau astudio. Yn draddodiadol, mae addysg uwch o fewn darpariaeth addysg bellach yn mwynhau grwpiau llai a mwy anffurfiol yn ogystal â chyswllt ffurfiol â darlithoedd ac mae tiwtor personol yn darparu gofal a chefnogaeth fugeiliol unigol.

Mae'r corff myfyrwyr yn ymwneud â chyfathrebu rheolaidd â'u Cydlynwyr Addysg Uwch sy'n cwrdd bob tymor i rannu barn myfyrwyr gyda'r Cydlynwyr Addysg Uwch eraill a staff perthnasol. Cynhelir Cynhadledd Myfyrwyr Flynyddol hefyd, a helpodd hyn i siapio'r cynllun ffioedd a gweithredu gyda gweithgareddau ychwanegol ar gyfer cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu hawgrymu gan gynrychiolwyr myfyrwyr. Ceir cyfranogiad terfynol y corff myfyrwyr yn y cynllun ffioedd a mynediad pan drafodir y cynllun ffioedd a mynediad yn y Bwrdd Llywodraethu.

Mae gwefan y Grŵp yn cynnwys gwybodaeth fanwl am Ffioedd Addysg Uwch a Chefnogaeth Ariannol ynghyd â Pholisi Ffioedd y Grŵp a'i delerau ac amodau i alluogi myfyrwyr i fod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a chyfanswm cost eu rhaglen addysg uwch. Mae hyn yn cydymffurfio â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer darparwyr Addysg Uwch. Mae tîm Derbyniadau'r Grŵp yn cyfathrebu gwybodaeth am ffioedd a gwybodaeth yn uniongyrchol i ymgeiswyr yn y cam cynnig. Mae'r ffi addysgu'n cynnwys yr holl gostau hanfodol gan gynnwys teithiau ac ymweliadau gorfodol. Cynigir y ffioedd addysgu ar gyfer 2019/20 fel

£7500, yr un peth ag yn 2018/19 ac mae'r ffi addysgu wrth ddechrau yn aros yr un peth trwy gydol y cwrs. Mae'r Grŵp yn ceisio isafu costau ychwanegol ond mae manylion unrhyw gostau ychwanegol wedi'u cyhoeddi yn y prospectws ac unrhyw broffiliau rhaglen ychwanegol ar wefan y Grŵp.

Mae'r Grŵp yn cynnal nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth Addysg Uwch gan gynnwys sgysiau cyllid myfyrwyr ac yn darparu gwybodaeth glir ar gyfer rhieni a myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd a'r Gronfa Galedi Addysg Uwch yn cael eu hysbysebu'n gyffredinol trwy ddigwyddiadau agored a thrwy gyhoeddiadau a gwybodaeth ar-lein.

GWNEUD YR ACHOS DROS FFOCWS A CHYNNWYS CYNLLUNIAU, GAN GYNNWYS Y DULL STRATEGOL.

Mae gan y Grŵp hanes da o ddenu unigolion o grwpiau a dangynrychiolir ar draws ei bortffolio darpariaeth. Mae llawer o'n myfyrwyr yn ddysgwyr aeddfed sy'n dychwelyd i astudio. Mae dull y Grŵp o gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo Addysg Uwch wedi'i alinio a'i genhadaeth. Datganiad cenhadaeth Grŵp Colegau NPTC yw "Ysbrydoli Dysgu, Cyfoethogi Bywydau a Darparu Llwyddiant". Mae 10 nod strategol gyda 39 o amcanion strategol. Yr amcanion strategol sy'n cysylltu â nodau'r Cynllun ffioedd a mynediad (mae'r rhifau'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Grŵp) yw:

- 1.1 Denu myfyrwyr o bob sector o'r gymuned a hyrwyddo dyheadau uchel a rhagoriaeth, gan fynnu cyflwyno'r safonau uchaf posib gan staff a myfyrwyr;
- 3.1 Datblygu diwylliant Grŵp sy'n gweld yr holl athrawon yn ysbrydoli ac â'r hyder i gyflwyno gwersi rhagorol a myfyrwyr sydd oll yn mwynhau'r profiad dysgu gorau posib;
- 3.2 Defnyddio strategaethau dysgu, addysgu ac asesu blaenllaw y sector sy'n cefnogi myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a gwella'u sgiliau dysgu annibynnol;
- 3.3 Hyrwyddo ennyn diddordeb myfyrwyr rhagorol trwy ddarparu sianelau cyfathrebu effeithiol ar gyfer 'llais y dysgwr' a chynrychioli myfyrwyr yn briodol ar grwpiau a phwyllgorau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o fewn y sefydliad;
- 3.4 Defnyddio ILT i gyfoethogi dysgu ac addysgu a chynyddu'r defnydd o ddysgu cymysg ac e-dysgu i wella mynediad a hyblygrwydd darpariaeth ar gyfer myfyrwyr;
- 5.1 Darparu cwricwlwm sy'n caniatáu cynnydd cadarnhaol a chyfleoedd priodol i fyfyrwyr symud ymlaen at addysg uwch, cyflogaeth neu ddysgu pellach;
- 7.2 Buddsoddi mewn staff trwy gynllunio a darparu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) o safon sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer twf proffesiynol;

8.1 Gwella ennyn diddordeb cyflogwyr a sefydlu trefniadau partneriaeth, rhwydweithio a chydweithio effeithiol sy'n darparu dealltwriaeth dda o'u hanghenion hyfforddi cyfredol ac yn y dyfodol;

8.2 Gweithio mewn partneriaeth â cyflogwyr i ddatblygu sgiliau gweithlu trwy ddarparu addysg a hyfforddiant a fydd yn helpu unigolion i wella'u sgiliau a chefnogi gwelliannau mewn proffidioldeb y busnes;

8.4 Sicrhau bod darpariaeth yn hyblyg i ddiwallu anghenion cyflogwyr gan gynnwys cynnwys y rhaglen, y dull cyflwyno, amseru a lleoliad;

9.1 Targedu myfyrwyr anhraddodiadol ac a dangynrychiolir er mwyn gwella cyfranogiad, gostwng nifer y rhai sydd wedi'u dosbarthu'n NEET a chynyddu sgiliau a gwybodaeth y rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth;

9.2 Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg oedolion a chymunedol lleol a chenedlaethol eraill i ddarparu ac annog mynediad i gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn enwedig y rhai o gymunedau difreintiedig;

9.4 Ennyn diddordeb yn gadarnhaol yn yr agenda ranbarthol ar gyfer darparu addysg uwch, gan gydweithio â phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i gynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn Addysg Uwch yn CNPT a Phowys;

9.5 Adnabod y myfyrwyr sydd fwyaf mewn perygl o fethu a darparu tracio a chefnogaeth effeithiol er mwyn i'r holl fyfyrwyr symud trwy'r system yn llwyddiannus;

10.1 Cynyddu fesul cam maint y dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru;

10.3 Datblygu gallu a sgiliau staff academiaidd i gyflwyno cynnydd cynlluniedig yn y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae Strategaeth Addysg Uwch 2016-2021 y Grŵp wedi'i alinio â, ac yn ymroddedig i, gyflawni'r gwerthoedd, gweledigaethau ac amcanion yng Nghynllun Strategol 2015-19 y Grŵp. Bydd y cynllun ffioedd a mynediad yn cefnogi holl amcanion y Strategaeth Addysg Uwch ac yn benodol gwella'r gwaith allgymorth a chyswllt ag ysgolion llwyddiannus ymhellach i barhau i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ac adeiladu dyhead ac uchelgais ymysg darpar fyfyrwyr. Amcanion y Strategaeth Addysg Uwch yw:

- Annog myfyrwyr yn weithredol i ddatblygu perthynas gydol bywyd gyda'r Grŵp o'r cam cyn dechrau, i israddedig ac alumni;
- Gwella'r gwaith allgymorth a chyswllt ag ysgolion llwyddiannus ymhellach i barhau i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ac adeiladu dyhead ac uchelgais ymysg darpar fyfyrwyr;

- Darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth glir i alluogi dewis gwybodus, a chwricwlwm sy'n diwallu anghenion myfyrwyr ac yn ychwanegu gwerth go iawn;
- Hyrwyddo cynnydd mewnol o Lefel 3 i Lefel 4 ac o Lefel 5 i Ddysgu Ychwanegol;
- Cefnogi ein staff i fod yn broffesiynol ac yn rhagweithiol o ran dilyn gwybodaeth a sgiliau presennol ac yn hyderus wrth ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i heriau'r dyfodol trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- Cyflwyno dulliau dysgu ac addysgu diddorol ac ysbrydoliaethus i godi dyheadau myfyrwyr a darparu profiad dysgu ysgogol;
- Datblygu cymuned addysg uwch mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a staff. Deall anghenion myfyrwyr, dysgu o'u profiadau a gweithio i wella'u profiad yn barhaus, gan helpu sicrhau lefelau recriwtio yn y dyfodol a mwyafu cyfraddau cadw a chyflawniad myfyrwyr ar draws y ddarpariaeth addysg uwch;
- Darparu profiad rhagorol ar gyfer yr holl fyfyrwyr addysg uwch sy'n uchel ei gymhelliad, gwobrwyol, ac yn herio ac yn ysbrydoli o fewn amgylchedd cefnogol.
- Parhau i ennyn diddordeb yn rhagweithiol ystod eang o gyflogwyr a sefydliadau sy'n ceisio ymdrin â'r sgiliau y mae eu hangen ar ddiwydiannau lleol a rhanbarthol, a darparu gwybodaeth glir am lwybrau cynnydd rhwng lefelau sgiliau i hwyluso twf cynlluniedig. Ochr yn ochr â gwybodaeth bwnc fanwl, byddwn yn cyfarparu ein graddedigion ar gyfer bywyd a gwaith y tu hwnt i'r Grŵp ac yn galluogi nhw i ffynnu, gan helpu sicrhau eu llwyddiant.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 y Grŵp yn ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae gan y Grŵp gyfrifoldebau o dan y ddeddf hon i gydymffurfio â'r ddyletswydd gydraddoldeb sector cyhoeddus, sydd wedi'u hadwaen fel y ddyletswydd gyffredinol. Y tair elfen neu 'nod' fel y cyfeirir atynt fel arfer yw:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Bydd cymhwyso'r dyletswyddau cyffredinol i waith y Grŵp yn anelu at sicrhau ein bod yn isafu anfantais, ceisio diwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl ifainc, ac annog pobl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus pan fyddant wedi'u tangynrychioli. Mae meithrin cysylltiadau da'n

mynnu ein bod i gyd yn taclo gwahaniaethu ac yn hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pawb. Mae staff yn ymwybodol o'r rôl y mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei chwarae trwy'r broses recriwtio a dethol, yn ystod eu proses gyflwyno, trwy fodiwl hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl.

Mae myfyrwyr yn ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gydol y broses gyflwyno ac yn ystod y rhaglen tiwtorialau i sicrhau dealltwriaeth. Adolygir cynnwys a chyflwyniad tiwtorialau'n flynyddol ac mae'r Grŵp yn cywain adborth gan fyfyrwyr ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y tiwtorialau. Rydym yn ceisio mwyafu'r holl gyfleoedd i brif-ffrydio amrywiaeth o fewn digwyddiadau presennol y Grŵp a hefyd rhoi cynnig ar syniadau blaengar pryd bynnag y bo'n bosib. Rydym yn credu bod cyfle cyfartal wrth wraidd popeth a wnawn ac yn rhan ganolog o gyflawni ein cenhadaeth a hyrwyddo llwyddiant ar gyfer ein holl fyfyrwyr. Mae Grŵp Colegau NPTC yn sefydliad cynhwysol ac yn credu ei fod yn hanfodol i holl aelodau'r gymuned deimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi ac yn gallu cyflawni eu potensial. Efen bwysig y weledigaeth hon yw nad yw cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bryderon ar wahân neu ychwanegol ond yn rhan annatod o'n bywyd a gwaith. Mae amcanion y cynllun ffioedd a mynediad a gwariant a darpariaeth o dan Gyfle Cyfartal yn cefnogi amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2016 yn disgrifio'r amcanion a ganlyn:

- Ymwreiddio egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws gwneud penderfyniadau allweddol a pholisi o fewn Grŵp Colegau NPTC
- Ehangu maint ac ansawdd y data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig ar staff a myfyrwyr fel y gallwn fesur effaith y CCS;
- Gwella cofrestru, cadw a chyrrhaeddiad ar gyfer pawb ac yn benodol myfyrwyr o unrhyw grŵp a dangynrychiolir sydd â nodwedd warchoddedig;
- Gwella cofrestru, cadw a chyrrhaeddiad ar gyfer pawb ac yn benodol myfyrwyr o unrhyw grŵp a dangynrychiolir sydd â nodwedd warchoddedig;
- Sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu a chyflogaeth trwy wella cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer pawb, beth bynnag yw eu nodweddion gwarchoddedig;
- Cyfuno cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer Grŵp Colegau NPTC i gyd.
- Parhau i feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda grwpiau cymunedol, partneriaid a chyrrff cyhoeddus.

Mae'r Grŵp yn aelod gweithredol o Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru a Chanolbarth/Gogledd Cymru. Mae'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn strategaeth CCAUC Cymru Gyfan, a sefydlwyd fel menter yn 2002, i ehangu cyfranogiad a mynediad i Addysg Uwch, gan gefnogi cynhwysiad cymdeithasol a gwella sgiliau. Mae'n anelu at gynyddu cyfranogiad grwpiau a chymunedau yng Nghymru (yn enwedig y rhai o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf) mewn addysg uwch y mae eu cyfranogiad yn isel, trwy greu amrywiaeth eang o

gyfleoedd astudio a llwybrau dysgu i addysg uwch. Bydd y Grŵp yn parhau i gyfrannu at y prosiectau sydd wedi'u dylunio i annog:

- cymryd rhan ar lefel addysg uwch ar gyfer grwpiau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac ardaloedd cwintel isaf y rhanbarth;
- dulliau codi dyheadau addysgol a galwedigaethol plant a rhieni, gofalwyr, teuluoedd;
- gweithgareddau codi dyheadau ar gyfer pobl ifainc ac oedolion nad ydynt wedi cyrraedd y pwynt pontio i addysg uwch eto;
- cydweithio ag Addysg Bellach (AB) a budd-ddeiliaid eraill i wella llwybrau cynnydd AB i addysg uwch a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n gysylltiedig ag addysg uwch;
- gweithgareddau sy'n cefnogi addysg a sgiliau plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a'u gofalwyr.

Mae gan y Grŵp ymrwymiad brwd i ehangu mynediad a gwella cyfleoedd cyfartal ar gyfer pawb, ac yn ddiweddar mae wedi penodi Cydlynnydd Ehangu Mynediad sydd â chyfrifoldeb dros y maes hwn. Bydd y rôl newydd hon yn hollbwysig i gyflawni targedau'r Cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 a bydd yn anelu at:

- ddatblygu a chyflwyno rhaglen ehangu mynediad y mai ei nod yw hwyluso mynediad pobl o gefndiroedd sydd wedi'u cynrychioli'n llai i addysg bellach ac addysg uwch;
- cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd ac uwchradd a phrifysgolion partner ar draws daearyddiaeth y Grŵp.
- cwrdd â'r targed ehangu mynediad perthnasol a thargedau eraill sydd wedi'u hadnabod yng nghynllun ffioedd a mynediad CCAUC blynyddol y Grŵp a'r rhai a bennir ar gyfer addysg bellach;
- gweithio mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Ymggyraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru a Phartneriaeth Ymggyraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru i ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r amcanion yn y Strategaeth Addysg Uwch yn alinio i ofynion y cynllun ffioedd a mynediad: hyrwyddo cyfle cyfartal i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch. Nod trosgynnol cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 yw buddsoddi incwm yn strategol mewn gweithgareddau ac ymyraethau i gyflawni'r amcanion strategol a amlinellir isod ac annog cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir mewn Addysg Uwch.

Mae pennu targedau a chyflwyno gweithgareddau, digwyddiadau ac ymyraethau i gefnogi cyflwyno'r Cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 yn deillio o ddysgu a gwerthuso yn sgil llwyddiant targedau cynlluniau ffioedd blaenorol. Darperir trosolwg o'r cynnydd yn erbyn meysydd sydd wedi'u hadnabod yng Nghynllun Ffioedd 2016/17 isod.

- **Canlyniad strategol 1: Rhaglen bwrsariaethau a ddylunnir i dargedu'r rhai y mae eu cartrefi yng nghwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu mewn ardaloedd**

clystyrau Cymunedau'n Gyntaf i wneud cynnydd i Lefel 6. Nod strategol 1a: Recriwtio 12 myfyriwr i flwyddyn 1 y mae eu cartrefu yng nghwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu mewn ardaloedd clystyrau Cymunedau'n Gyntaf.

Ar hyn o bryd mae Grŵp NPTC yn cynnig 3 chategori bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol sy'n bodloni'r meini prawf a ganlyn: Myfyrwyr rhyngwladol sy'n talu ffi, plentyn sy'n derbyn gofal/gadawr gofal neu'n byw mewn ardal côd post sydd yng nghwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, neu mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fyfyrwyr rhyngwladol yn astudio ar ein cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol. At ei gilydd ymgeisiodd tri o fyfyrwyr am y fwsariaeth plentyn sy'n derbyn gofal. gan gynnwys un ar gwrs a gyllidir yn uniongyrchol, ond ni chynhyrwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu hawliad, felly ni dderbyniwyd bwrsariaeth. Ymgeisiodd 22 o fyfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol am y fwsariaeth "côd post", ond dim ond chwech o fyfyrwyr oedd yn byw yn yr ardaloedd côd post cymwys.

- **Canlyniad strategol 2: Datblygu modiwl 5 credyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n berthnasol i fyfyrwyr yr HND mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau. Nod strategol 2a: Cyflwyno modiwl cyfrwng Cymraeg/dwyieithog pum credyd i 10 o fyfyrwyr.**

Yn 2016/17 addysgwyd un modiwl yn ddwyieithog ym mlwyddyn gyntaf yr HND mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau. Yn 2017/18 cynigiodd Grŵp NPTC fodiwl yn yr HND CaDS, a hefyd HNC CBE (Adeiladu), HNC CBE (Peirianeg Sifil) a hefyd HND CBE (Peirianeg Sifil). Fodd bynnag, ni ddewisodd unrhyw fyfyrwyr yr opsiwn hwn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddo gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithio tuag at gynyddu diddordeb yn y blynyddoedd i ddod.

- **Canlyniad strategol 3: Gwella cadw myfyrwyr israddedig amser llawn. Nod strategol 3a: Cyflawni targed cadw o 90% ar gyfer carfan blwyddyn 1 yr HND mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau.**

Cyflwynwyd sesiynau tiwtorial wythnosol wedi'u hanelu at wella sgiliau astudio, sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn ystod camau cynnar y flwyddyn academaidd cyfeiriwyd myfyrwyr at y gwasanaethau cefnogaeth ddwys a ddarperir gan Wasanaethau i Fyfyrwyr. Ymgwymerodd staff â hyfforddiant 'ffitrwydd i astudio' a hyfforddiant iechyd meddwl. Roedd cyfraddau cadw ar gyfer yr HND mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau yn 2016/17 yn 93% gyda 15 o gofrestrïadau, un trosglwyddiad ac un a dynnodd allan.

- **Canlyniad strategol 4: Gwella cyflogadwyedd ein graddedigion. Nod strategol 4a: Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd mewn gweithgareddau tiwtorial ac ymchwilio i gyfleoedd rhyngwladol ar gyfer lleoliadau myfyrwyr a Nod strategol 4b: Cynnal dau ddigwyddiad yn 2016/17 gyda ffocws ar gyflogadwyedd a chreu dyhead ymysg ein myfyrwyr addysg uwch.**

Mae cynllun gwaith tiwtorialau addysg uwch wedi'i ddatblygu ac mae cynllun gweithredu'r rhaglen wedi ymgorffori camau gweithredu ar gyflogadwyedd ar gyfer 2016/17. Cefnogwyd hyn gan weithgareddau niferus i hyrwyddo cyflogadwyedd ac ysbrydoli myfyrwyr addysg uwch i ymwneud â chyflogaeth/astudio pellach. Roedd enghreifftiau o ddigwyddiadau yr oedd myfyrwyr wedi cymryd rhan ynddynt yn cynnwys ffair gyflogadwyedd lle roedd gan fyfyrwyr y cyfle i drafod prosesau recriwtio, y sgiliau sy'n ofynnol o safbwynt cyflogwyr a'r cyfleoedd sydd ar gael. Roedd rhai cyflogwyr hefyd yn cynnig cyflogaeth rhan-amser â thâl a/neu swyddi gwirfoddol. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad cynigiwyd gwaith i 6 myfyriwr - mae dau'n parhau mewn cyflogaeth ran-amser. Crëwyd sefyllfaoedd bywyd go iawn er mwyn i fyfyrwyr ymgymryd â ffug gyfweiliadau. Rhoddir disgrifiad swydd i fyfyrwyr ymlaen llaw ac maent yn profi cyfweiliad swydd 'bywyd real'. Gofynnir iddynt wisgo'n briodol a dod â CV gyda nhw. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau cyfweiliad i fyfyrwyr a derbyniant adborth ar eu cyfweiliad a CV ar ddiwedd y sesiynau.

Cynhaliwyd digwyddiadau cynnydd yng Nghampysau Castell-nedd ac Afan pan wahoddwyd myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni i siarad ag amrywiaeth o ddarparwyr cefnogaeth am yr opsiynau sydd ar gael i'w plentyn/gofalai ar ôl iddynt orffen eu haddysg. Roedd y myfyrwyr yn fodlon ar y digwyddiad a byddwn yn anelu at wneud hwn bob blwyddyn, gan ennyn diddordeb mwy o fusnesau a darparwyr cefnogaeth wrth i'r digwyddiad symud yn ei flaen. Rhedodd USW sesiwn gyda myfyrwyr Lefel 5 a 6 ar gyfleoedd Lefel 7 ochr yn ochr â Ffair Gyflogaeth ar Gampws Castell-nedd. Bu i'r Grŵp ymwneud yn sylweddol yn yr ŵyl Yrfaedd yn Sioe Frenhinol Cymru Llanfair ym Muallt.

Adroddodd arolwg DLHE 2014/15 fod 53% o raddedigion yn ymgymryd ag astudiaeth amser llawn, roedd 27% mewn gwaith amser llawn, 7% mewn gwaith rhan-amser a 13% yn ymgymryd â gwaith ac astudiaeth. At ei gilydd roedd 93% mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach. Yn DLHE 2015/16 roedd 25 o raddedigion o gyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol yn gymwys i wneud yr arolwg. Ymatebodd 22, roedd un wedi marw ac ni wnaeth ddau yr arolwg. O ganlyniad i hyn roedd y gyfradd ymateb yn 88%. O'r myfyrwyr a atebodd, mae 54% yn y gwaith, mae 27% wedi dychwelyd i astudio amser llawn, mae 14% yn gweithio ac yn astudio, mae 5% yn gwneud rhywbeth gwahanol.

Mae 60% o'r myfyrwyr a ddaeth o hyd i gyflogaeth amser llawn wedi aros yng Nghastell-nedd Port Talbot/Abertawe, ac nid oes unrhyw fyfyrwyr wedi dod o hyd i gyflogaeth y tu allan i Gymru. Mae 60% o fyfyrwyr wedi dod o hyd i gyflogaeth yn y crefftiau Adeiladu neu Beirianeg, gan gynnwys yr holl fyfyrwyr sy'n gweithio ac yn astudio'n rhan-amser. Mae gweddill y myfyrwyr naill ai wedi dod o hyd i gyflogaeth amser llawn mewn sectorau eraill, neu'n ymgymryd â gwaith gwirfoddol.

Cafwyd gwelliannau araf yn yr ystadegau methu â pharhau cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda hyn mewn cof, mae'r Grŵp wedi comisiynu a buddsoddi mewn dau brosiect gwella yn 2016/17 gyda nifer o argymhellion wedi'u cyflwyno yn 2017/18. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ansawdd dysgu

ac addysgu ac ar wella sgiliau academaidd mewn Addysg Uwch gan geisio gwella methu â pharhau. Mae'r Grŵp hefyd wedi prynu modiwl bugeiliol newydd i'w roi ar waith yn llawn yn 2017/18 sydd wedi'i ddylunio i wella presenoldeb a chadw a helpu myfyrwyr i gynnal eu cymhelliad a ffocysu ar ddysgu, cadw cyflawniad myfyrwyr ar y trywydd iawn trwy alluogi nhw i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, gyda mynediad at wybodaeth allweddol fel presenoldeb a phrydlondeb ac i fwyafu deilliannau a darparu profiad o safon i ddysgwyr.

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 yn parhau i fuddsoddi mewn cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig ymysg unigolion o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr. Mae'r buddsoddiad a gyfeirir at 'ddarparu cefnogaeth academaidd a lles o safon uwch i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch' wedi'i gynyddu hefyd.

- **Canlyniad strategol 5: Cryfhau mecanweithiau llais myfyrwyr: Nod strategol 5a: Cefnogi gwasanaethau myfyrwyr wrth sicrhau ennyn diddordeb myfyrwyr addysg uwch yn effeithiol a chofnodi llais myfyrwyr. Nod strategol 5b: Cynnal neu wella'r gyfradd boddhad NSS gyffredinol o 92% o 2013/14.**

Parhaodd prosiect yr Undeb Myfyrwyr gyda chynrychiolwyr myfyrwyr addysg uwch yn cael eu henwebu ar gyfer 2016/17: Cymeradwywyd cyfansoddiad yr Undeb Myfyrwyr gan Uwch Dîm Rheoli'r Grŵp. Mae strategaeth cyfranogiad myfyrwyr ddiwygiedig wedi'i gweithredu ar gyfer y Grŵp. Mae hon yn disgrifio'r fframwaith gweithgareddau cyfranogiad myfyrwyr yn glir er mwyn cefnogi taith myfyrwyr. Mae'r fframwaith wedi'i gyfansoddi o bedwar edefyn. Mae pob edefyn yn disgrifio grwpiau a mathau o gyfranogiad, yr ystod o weithgareddau a mecanweithiau adrodd ac adborth cysylltiedig. Mae'r strategaeth yn ymdrin â'r holl fyfyrwyr a moddau presenoldeb. Mae gweithgarwch Cyfranogiad Myfyrwyr yn cael ei oruchwyllo gan y Gweithgor Cyfranogiad Myfyrwyr ac mae bellach yn cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr o bob math o ddarpariaeth, gan gynnwys addysg uwch. Mae calendr o Weithgareddau Cyfranogiad Myfyrwyr yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ac yn cael ei roi ar Moodle ar gyfer myfyrwyr a SharePoint ar gyfer staff. Edafedd y Fframwaith Cyfranogiad Myfyrwyr yw:

Edefyn Un - Gweithgareddau Myfyrwyr Unigol ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch, mae hyn yn cynnwys - Datblygu/creu ILP, Cymryd Rhan mewn Arolygon (cyflwyno, arolwg myfyrwyr cenedlaethol a phwynt ymadael), dehongli barn gan ddefnyddio VocalEyes, mynediad i gyfryngau cymdeithasol a chymryd rhan mewn cyfoethogi, dinasyddiaeth, gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol. Gellir dadansoddi'r holl arolygon fesul cwrs, math o ddarpariaeth, ysgol academaidd a champws.

Edefyn Dau - Cynrychiolwyr Myfyrwyr – Mae cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar bob cwrs. Mae'r cynrychiolwyr wedi derbyn hyfforddiant gan Uned Hawliau Plant CBS Castell-nedd. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn mynychu

cyfarfodydd ac adolygiadau tîm y cwrs, cyfarfodydd y Grŵp Senedd, y Gynhadledd Myfyrwyr Flynyddol. Mae ganddynt gynrychiolaeth ar bwyllgorau Grŵp perthnasol, grwpiau strategaeth a gweithgorau, cyfranogiad mewn cadarnhau dyfarniadau SAR, arolygon mewnol a gwerthuso gwasanaethau a hyrwyddo'r defnydd o'r llwyfan VocalEyes. Gellir dadansoddi'r holl weithgareddau ymgynghori fesul cwrs, math o ddarpariaeth, ysgol academaidd a champws.

Edefyn Tri - Rhaglen Llysgenhadon – Mae myfyrwyr addysg uwch yn gymwys i ymgeisio am Lysgenhadaeth Grŵp. Yn y rhinwedd hon maent yn cefnogi ysgolion academaidd mewn digwyddiadau agored a nosweithiau rhieni, y tîm derbyn mewn nosweithiau cyfweiliad, digwyddiadau rhagflas, cyflwyniadau ysgol uwchradd a chofrestru a chynnig darparu cefnogaeth mentora gan gymheiriaid trwy hyrwyddo gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

Edefyn Pedwar - Undeb Myfyrwyr – mae'r Undeb Myfyrwyr yn ifanc iawn o hyd ac mae ganddo adrannau Addysg Uwch/Addysg Bellach. Trwy gydol y flwyddyn academaidd nesaf bydd yr Undeb yn datblygu ystod o Glybiau a Chymdeithasau, grwpiau diddordeb cyffredinol, grwpiau cymdeithasol, moesegol a chrefyddol a gweithgareddau a digwyddiadau fel Dawns, Ffair y Glas a'r Wythnos Rag.

Y sgôr boddhad NSS gyffredinol ar gyfer 2014 oedd 92%, 84% yn 2015 a 90% yn 2016. Yn 2017 roedd y sgôr boddhad gyffredinol yn 100%. Adroddodd yr arolwg hefyd fod sgorau'n uwch yn gyffredinol na blynyddoedd blaenorol gydag "Addysgu ar fy Nghwrs" yn cael ei raddio'n 94%.

- **Canlyniad strategol 6: Dechrau denu myfyrwyr rhyngwladol ac annog staff a myfyrwyr i achub ar gyfleoedd astudio a datblygu rhyngwladol. Nod strategol 6a: Cefnogi taith astudio neu aelod staff/myfyriwr i ymgymryd a thaith, astudio neu ddatblygu rhyngwladol.**

Mae staff a myfyrwyr o fewn y Grŵp wedi elwa o gyfleoedd i weithio/teithio tramor. Mae nifer o gyfleoedd wedi'u darparu i staff a myfyrwyr gan gynnwys cyfleoedd yn Tsieina ac India. Mae'r Prifathro Cynorthwyol (Gweithrediadau Byd-eang) yn teithio'n helaeth er mwyn datblygu'r cyfleoedd hyn ac mae hefyd wedi gweithio'n weithredol i hyrwyddo rhaglenni addysg y Grŵp tramor. Mae nifer o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru ar raglenni addysg bellach ond nid yw'r Grŵp wedi llwyddo i recriwtio unrhyw fyfyrwyr addysg uwch rhyngwladol eto.

- **Canlyniad strategol 7: Gwellu ansawdd dysgu, addysgu ac asesu. Nod strategol 7a: Cyflwyno cynllun datblygu staff ysgolheigaidd gweithredol yn y Grŵp.**

Cyflwynodd Grŵp Colegau NPTC broses sy'n galluogi ymarferwyr addysgu i wella'u sgiliau academaidd a phroffesiynol trwy hunan-fyfyrto a gweithio ar y cyd. Y prif ddiben yw cefnogi unigolion i fanteisio i'r eithaf ar eu dysgu personol a phroffesiynol trwy broses hunanasesu sy'n galluogi nhw i fyfyrto ac

adnabod agweddau datblygiadol ar eu harfer. Mae arweiniad trwy gydol y broses yn galluogi ymarferwyr i ddeall manteision hunan-fyfyr, cwblhau dogfennaeth berthnasol, adnabod a blaenoriaethu anghenion dysgu a datblygu gan gynnwys gweithgareddau ysgolheigaidd fel cyrchu a defnyddio ymchwil bersonol a myfyrion ar ddamcaniaethau newydd i wella gwybodaeth ac arferion proffesiynol. Ni fydd yn ofynnol i ymarferwyr rannu canlyniadau eu hunan-fyfyr, dim ond eu hanghenion datblygu a ddaw i'r amlwg gan fod hyn yn rhan o'r rhaglen arfarnu gyfredol.

GRWPIAU A DANGYNRYCHIOLIR MEWN ADDYSG UWCH

Mae Tabl 8 yn darparu trosolwg o nodweddion y myfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol. Bydd y grwpiau y mae ymgeiswyr yn ystyried eu bod wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch yn cael eu cefnogi gan gynlluniau ffioedd a mynediad 2019/20. Cafwyd cynnydd cyson mewn niferoedd myfyrwyr ond mae nifer y myfyrwyr gwrywaidd yn parhau'n sylweddol uwch na menywod; mae'n bosib bod natur y ddarpariaeth yn ffactor dylanwadol. Mae cyfran uwch y myfyrwyr o godau post POLAR 1 a 2 yn adlewyrchu'r rhanbarthau y mae'r campysau wedi'u lleoli ynddynt ond mae hefyd yn pwysleisio llwyddiant y Grŵp wrth recriwtio grwpiau a dangynrychiolir. Mae absenoldeb siaradwyr Cymraeg yn sail i'r rheswm dros ddiffyg diddordeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Grŵp. Bydd yr holl grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cefnogi trwy'r cynllun ffioedd a mynediad a chyllid arall y Coleg. Fodd bynnag, y grwpiau penodol a gaiff eu cefnogi yw menywod, myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr. Dewiswyd y grwpiau hyn gan fod mwy o fyfyrwyr gwrywaidd na benywaidd yn y Grŵp ac mae rhai o'r rhanbarthau sy'n lleoliad i'r Grŵp yn ardaloedd cyfranogiad isel.

Tabl 8. Nodweddion y myfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol yn weithredol ar bwynt cyfrifiad 1 Rhagfyr.

Grŵp Colegau NPTC

		Full Time				Part Time				Total
		2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Total 2016/17
Level of Study	First Degree	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Other UG	21	30	43	50	38	32	57	57	107
Age	Under 21	16	26	32	25	10	9	6	4	29
	21 to 30	2	2	9	18	16	14	29	34	52
	Over 30	3	2	2	7	12	9	22	19	26
Ethnicity	White	17	30	35	46	15	27	40	51	97
	Black	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Asian	0	0	0	2	0	0	0	0	2
	Other	0	0	8	0	3	5	17	0	0
	Unknown	4	0	0	2	20	0	0	6	8
Sex	Male	19	26	39	45	35	30	51	44	89
	Female	2	4	4	5	3	2	6	13	18
	Other	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Disability	Yes	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	No	21	30	43	50	38	32	57	57	107
Domicile	UK	21	30	43	50	38	32	57	57	107
	Other EU	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Non EU	0	0	0	0	0	0	0	0	0
POLAR	1	8	8	11	11	5	5	9	12	23
	2	5	12	15	19	13	12	21	22	41
	3	4	5	8	9	9	5	10	13	22
	4	4	5	6	8	10	9	13	7	15
	5	0	0	2	5	0	1	3	2	7
	Non-polar	0	0	1	1	1	0	1	1	2
Welsh Communities First	Yes	10	13	20	20	13	11	18	18	38
	No	11	17	23	30	25	21	39	39	69
Welsh Medium	Yes	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	No	21	30	43	50	38	32	57	57	107

Mae Tablau 9, 10 ac 11 yn darparu data ar gyfer canlyniadau myfyrwyr mewn perthynas â grwpiau a dangynrychiolir. Dangosodd dadansoddiad o ganlyniadau myfyrwyr mewn perthynas â POLAR a rhyw y canlynol:

- cyflawnodd 81% o'r holl fyfyrwyr deilyngdod/ragoriaeth gydag 8% yn cyflawni rhagoriaeth.
- Perfformiodd ddynion yn well na menywod gan gyflawni proffiliau teilyngdod/rhagoriaeth 84%.
- Dim ond myfyrwyr o ardaloedd nad ydynt yn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a dderbyniodd ddyfarniadau rhagoriaeth.
- Canran y myfyrwyr a gyflawnodd broffil rhagoriaeth neu deilyngdod yw 87% yn LPN1, 80% yn LPN2, 80% yn LPN3, 82% yn LPN4 a 75% yn LPN5.

Tabl 9. Canlyniadau myfyrwyr fesul rhyw ar gyfer 2016/17

	Llwyddo	Teilyngdod	Rhagoriaeth	Cyfanswm
Benywaidd	2 (33%)	3 (50%)	1 (17%)	6
Gwrywaidd	7 (16%)	33 (77%)	3 (7%)	43
Pawb	9 (19%)	36 (73%)	4 (8%)	49

Tabl 10. Canlyniad myfyrwyr fesul Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf

	Llwyddo	Teilyngdod	Rhagoriaeth	Cyfanswm
Ddim o Ardal Cymunedau'n Gyntaf	7 (19%)	25 (69%)	4 (12%)	36
Cymunedau'n Gyntaf	2 (15%)	11 (85%)	0 (0%)	13

Tabl 11. Canlyniad myfyrwyr fesul POLAR

POLAR	1	2	3	4	5
Rhagoriaeth	0 (0%)	0 (0%)	2 (20%)	1 (9%)	0 (0%)
Teilyngdod	7 (87%)	12 (80%)	6 (60%)	8 (73%)	3 (75%)
Llwyddo	1 (13%)	3 (20%)	2 (20%)	2 (18%)	1 (25%)

Mae amcanion cynllun ffioedd a mynediad y Grŵp wedi'u halinio â'r dangosyddion perfformiad allweddol yn Strategaeth Addysg Uwch 2016-2021 y Grŵp. Mae'r amcanion wedi'u dangos o dan Gyfle Cyfartal a hyrwyddo addysg uwch ac wedi'u trefnu o dan y tri chategori sy'n gysylltiedig ag amcanion cynllun ffioedd a mynediad 2018/19: Newidiadau Myfyrwyr, Safonau a Pherfformiad a Phrofiad Myfyrwyr o Strategaeth Addysg Uwch y Grŵp.

Mae amcanion Cynllun ffioedd a mynediad 2019/20 wedi'u hadnabod isod gyda'r categori gwariant cyfatebol.

- Newidiadau Myfyrwyr: Cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir - myfyrwyr amser llawn aeddfed (>30 oed) y mae eu cartref yn y Deyrnas Unedig - **A2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;
- Newidiadau Myfyrwyr: Cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir - myfyrwyr amser llawn benywaidd y mae eu cartref yn y Deyrnas Unedig - **A2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;
- Newidiadau Myfyrwyr: Cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir - myfyrwyr amser llawn mewn cymdogaethau cyfranogiad isel 1-3 - **A2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;
- Newidiadau Myfyrwyr: Gweithgareddau a digwyddiadau Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn fewnol ac yn allanol gan gynnwys mentrau ehangu mynediad - **B6** codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr

- Newidiadau Myfyrwyr: Canran y graddedigion mewn cyflogaeth, neu'n astudio neu'r ddau - **B3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru;
- Newidiadau Myfyrwyr: Cynnydd o lefel 3 i addysg uwch (fel a bennir gan nifer y ceisiadau UCAS) - **B6** codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwr.
- Safonau a Pherfformiad: Methu â pharhau yn dilyn y flwyddyn dderbyn, canran y myfyrwyr amser llawn y mae eu cartref yn y Deyrnas Unedig - **A4** cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr;
- Safonau a Pherfformiad: Methu â pharhau yn dilyn y flwyddyn dderbyn, canran y myfyrwyr amser llawn y mae eu cartref yn y Deyrnas Unedig o gymdogaethau cyfranogiad isel 1-3 - **A4** cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr;
- Safonau a Pherfformiad: Methu â pharhau ar ôl y flwyddyn dderbyn, myfyrwyr amser llawn sy'n derbyn cefnogaeth academaidd a lles - **A7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o safon i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- Safonau a Pherfformiad: Cyflawni proffil rhagoriaeth - **B2** gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwr;
- Safonau a Pherfformiad: Cyflawni proffil rhagoriaeth, ar gyfer y rhai sy'n derbyn cefnogaeth academaidd a lles - **A7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o safon i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- Safonau a Pherfformiad: Nifer y myfyrwyr amser llawn a gefnogir trwy gronfeydd bwrsariaeth a chaledi - **A7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o safon i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- Safonau a Pherfformiad: Cadw ar raglenni ym mlwyddyn 2 o 2 - **A4** cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr;
- Profiad/Cyfranogiad Myfyrwyr Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn weithredol mewn prosiectau a gweithgareddau'r Undeb Myfyrwyr - **B1** cyflwyno enbyn diddordeb cyrff a chymunedau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru'n fwy effeithiol
- Profiad Myfyrwyr: Profi cyflwyno modiwl dwyieithog fesul rhaglen a grŵp blwyddyn - **B3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru;
- Profiad Myfyrwyr: Nifer y staff cyflwyno Addysg Uwch sydd â Chymrodoriaeth neu statws cymrodoriaeth HEA - **B2** gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwr;
- Profiad Myfyrwyr: Ansawdd dysgu ac addysgu - yn y chwarterel uchaf ar gyfer Colegau Addysg Uwch fel a adroddwyd yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol - **B2** gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwr;

- Profiad Myfyrwyr: Boddhad cyffredinol - yn y chwarter uchaf ar gyfer Colegau Addysg Uwch fel a adroddwyd yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol - **B2** gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwyr;

DARPARIAETH

Yn sgil adolygu llwyddiant targedau cynlluniau ffioedd blaenorol, nodweddion myfyrwyr a data deilliannau, y cyfanswm cyllid a gaiff ei fuddsoddi i gyflawni'r amcanion strategol, gan gynnwys dyrannu bwrsariaethau fydd £107,000. Caiff hyn ei ddyrannu fel a amlinellir isod.

MESURAU CYFLE CYFARTAL SY'N CEFNOGI GRWPIAU A DANGYNRYCHIOLIR MEWN ADDYSG UWCH:

Y rhagolwg canrannol ar gyfer cydraddoldeb yw 67.3% o'r £107,000 arfaethedig a chyflwynir gwariant ar gyfle cyfartal fesul categori gwariant yn Nhabl 12. Adroddir am weithgareddau fesul categorïau gwariant ond bydd y Grŵp hefyd yn cefnogi gweithgareddau eraill o'r incwm ffioedd myfyrwyr.

Tabl 12 Gwariant arfaethedig fesul categori gwariant ar gyfer cyfle cyfartal

a) Cyfle cyfartal	2019/20	2018/19
	£	£
Categori gwariant i gefnogi unigolion a dangynrychiolir mewn addysg uwch i:		
1. hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau a dangynrychiolir		9,100
2. denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir	39,000	20,200
3. codi dyheadau a sgiliau addysgol pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gefnogi llwyddiant mewn addysg uwch		0
4. cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr	12,000	9,484
5. gwella'r profiad addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch		0
6. darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau		0
7. darparu cefnogaeth academaidd a lles o safon uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch	19,762	20,000
8. cefnogi cynnydd grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch i gyflloaeth neu astudio pellach		0
9. cyfrannu at Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach	1,238	0
10. arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad		0
Cyfanswm	72,000	58,784
Canran y gwariant a ragwelir sydd i'w gwario ar Gyfle Cyfartal	67.3%	63.9%

Bydd darparu cyfle cyfartal fesul categori gwariant (A1 - A10) yn cynnwys:

A1. Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd difreintiedig;

Mae'r Grŵp yn cydnabod yr angen am gydweithio'n agos ag amrywiaeth o ddarparwyr a chymunedau i sicrhau cynnydd i'r cwricwlwm addysg uwch yn ymatebion i anghenion cyflogwyr a lleol a'i fod yn ceisio cyfleoedd gweithio ar y cyd i ddarparu a hyrwyddo addysg fel dewis bywyd. Bydd y Grŵp yn parhau i wneud hyn trwy:

- Weithgareddau a digwyddiadau ehangu mynediad mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, mewn Clystyrau Cymunedau'n Gyntaf a gyda grwpiau a dangynrychiolir sydd wedi'u hadnabod yn y cynllun ffioedd a mynediad hwn.
- Rhaglen Porth i Addysg Uwch
- Gweithredu prosesau derbyn teg a chyfiawn, gan gydnabod profiad a chymwysterau ymgeiswyr unigol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Gweithredu gweithdrefnau DBS ac asesu risg ar ddatgeliadau collfarn troseddol ac ar gyfer yr holl raglenni sy'n cynnwys lleoliadau gwaith gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Bydd y Grŵp hefyd yn parhau i ennyn diddordeb a datblygu gweithgareddau ehangu mynediad a chyflawni nodau ac amcanion strategol Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru a Phartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru.

A2. Denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;

Mae'r Grŵp yn darparu ac yn hyrwyddo'n eang pecyn cefnogaeth ariannol myfyrwyr clir sy'n hawdd ei deall ac ymgeisio amdano ac sydd wedi'i anelu'n benodol at gefnogi grwpiau a dangynrychiolir. Mae hyn yn cynnwys:

- Dyfarniadau bwrsariaeth
- Chronfa Galedi Addysg Uwch
- Cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr anabl.

Fel rhan o ehangu mynediad a hyrwyddo addysg uwch, bydd y Grŵp yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau rhagflas addysg uwch a modiwl Lefel 4 er mwyn ennyn dyhead ymysg grwpiau a dangynrychiolir yn ogystal â myfyrwyr a charfannau lefel 3 yn y gymuned leol.

Bydd pob rhaglen israddedig yn datblygu modiwl dwyieithog gan weithio gydag adnoddau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mewn partneriaeth ag ef. Nid yw'r Grŵp mewn sefyllfa i gynnig rhaglenni cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ond bydd yn cynnig darpariaeth diwtorial cyfrwng Cymraeg ar sail wythnosol.

Mae'r Grŵp yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr trwy ddarparu ystod o wasanaethau (gan gynnwys cwnsela, cyngor ariannol, cyngor gyrfaol, cyfeiriadau etc.) i helpu myfyrwyr i bontio i addysg uwch, cymryd rhan ynddi'n llawn a gwneud cynnydd cryf ohoni.

Hyrwyddir addysg uwch gynaliadwy trwy greu carfannau ac ymdrin â thangynrychiolaeth ar lefelau cymwysterau is, gyda llwybrau clir trwodd i astudiaeth ar lefel uwch, er enghraifft Menywod mewn Adeiladu.

Bydd y Grŵp yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n cael eu derbyn o gefndiroedd anhraddodiadol a gyda sgiliau academaidd, rhifedd a chyfathrebu gwannach wedi'u diagnosio yn y cam ymgeisio trwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys rhaglenni llythrennedd, ysgolion haf sgiliau astudio a chyfres o offer ac adnoddau ar-lein. Mae'r gwaith hwn wedi'i gefnogi gan Swyddogion Cefnogi Sgiliau Astudio, Pontio a Chadw Myfyrwyr a gweithrediad parhaus argymhellion y Prosiect Gwella Sgiliau Astudio.

A3. Codi dyheadau a sgiliau addysgol pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gefnogi llwyddiant mewn addysg uwch;

Trwy amrywiaeth o fecanweithiau ehangu mynediad bydd y Grŵp yn cyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau i godi dyheadau myfyrwyr ysgol a chymunedau i wneud addysg uwch yn ddewis bywyd go iawn. Trwy ei gynllun mentora alumni ar gyfer myfyrwyr addysg uwch a darpar fyfyrwyr addysg uwch, bydd y Grŵp yn gweithio i ddenu'r rhai sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd i addysg uwch. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Gweithgareddau ysgol i amlygu llwybrau i Addysg Uwch a'i gwerth
- Gweithgareddau a digwyddiadau rhagflas cymunedol
- Cynllun mentora alumni.

A4. Cefnogi a chynyddu cadw, cynnydd a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr;

Darperir rhaglenni cyflwyno ar gyfer yr holl fyfyrwyr newydd, gan ymgorffori ystod o weithdai sgiliau astudio i gyflwyno cyfleusterau, adnoddau a staff y Grŵp a chefnogi pontio i addysg uwch. Neilltuir tiwtor personol i bob myfyriwr ac mae'r rhaglen tiwtorialau addysg uwch yn darparu deialog rheolaidd, cefnogaeth academaidd, gofal bugeiliol a pharatoi ar gyfer cynnydd.

Mae ystod o ddulliau monitro a mecanweithiau'n cefnogi myfyrwyr i ddiogelu a chynyddu lefelau presenoldeb, gan ddiogelu lefelau cadw a chanlyniadau. Mae adroddiadau data cadarn yn galluogi ymyraethau, cyfeiriadau a gwella datblygu prosiectau i gefnogi dulliau cadw cryfion ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Mae'r gefnogaeth a ganlyn yn bodoli i hyrwyddo cadw, cwblhau a chynnydd hefyd:

- Dyfarniadau bwrsariaeth
- Swyddogion Pontio a Chadw Myfyrwyr
- Gweithrediad parhaus argymhellion y Prosiect Gwella Sgiliau Astudio
- Monitro gwybodaeth presenoldeb, cadw a thynnu allan
- Cefnogaeth sgiliau astudio
- Gwariant ar y prosiect gwella.

A5. Gwella'r profiad addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;

Mae'r Grŵp yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau i roi hwb i sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr, i roi profiadau gwaith a chysylltiedig â gwaith bywyd real iddynt. Mae rhaglenni a hyfforddiant cynrychiolwyr myfyrwyr, cymryd rhan mewn strwythurau pwyllgor, rhaglenni llysgennad myfyrwyr, gweithgareddau gloywi i ddatblygu sgiliau a rhinweddau mwy meddal i gyd yn ychwanegu gwerth at raglenni i roi hwb i sgiliau cyflogadwyedd mewn grwpiau a dangynrychiolir. Mae hyn hefyd yn cynnwys:

- Dyfarniadau bwrsariaeth
- Gweithgareddau undeb myfyrwyr
- Gweithgareddau a alinir i'r Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr
- Ffeiriau cyflogaeth
- Cynnig 'Mwy nag addysg' i fyfyrwyr.

A6. Darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau;

Mae'r wybodaeth a ddarperir am astudiaeth addysg uwch yn cynnwys gwybodaeth a dargedir ar gyfer myfyrwyr a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Mae hyn yn amrywio o'r gefnogaeth sydd ar gael, cynlluniau ariannol, cefnogaeth sgiliau astudio, darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae gwybodaeth copi caled ac ar-lein ar gael ac yn hygyrch, ac mae'n cynnwys:

- Gweithgareddau diwrnod agored a chyngor
- Digwyddiadau rhagflas
- Digwyddiadau cynnydd Lefel 3
- Gwybodaeth ar gyfer darpar fyfyrwyr
- Gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr cofrestredig

A7. Darparu cefnogaeth academaidd a lles o safon i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;

Bydd y Grŵp yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cefnogi a chefnogaeth sgiliau astudio i sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad i gyngor, cefnogaeth a chymorth. Cyfathrebir y gwasanaethau hyn trwy wefan y Grŵp, gwybodaeth brintiedig, llawlyfrau rhaglen, gweithgareddau cyflwyno, gweithgareddau tiwtorial a thrwy ddigwyddiadau hyrwyddo ar y campysau. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Gwasanaethau Myfyrwyr (gan gynnwys cefnogaeth lles, cefnogaeth a chyngor ariannol, cwnsela, cyfeiriadau)
- Cefnogaeth Sgiliau Astudio
- System tiwtorialau addysg uwch
- Mesurau o dan y ddyletswydd Atal
- DPP ar gyfer staff
- Ariannu gweithgareddau undeb myfyrwyr
- Cefnogi mecanweithiau adborth ac adrodd myfyrwyr

- Gwariant ar y prosiect gwella

A8. Cefnogi cynnydd grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch i gyflogaeth neu astudio pellach;

Mae staff yn ymwybodol o'r angen am ymwreiddio sgiliau cyflogadwyedd mewn rhaglenni a gwneud cysylltiadau pendant rhwng cynnwys a chyflogadwyedd yn ychwanegol at y ddarpariaeth 'ychwanegol' sydd ar gael i gefnogi cynnydd i gyflogaeth neu astudio pellach. Mae'r Grŵp yn cefnogi cynnydd trwy nifer o fecanweithiau:

- Mynediad i gynghorwyr gyrfaol
- System tiwtorialau addysg uwch
- Ffeiriau cyflogaeth
- Cynllun mentora alumni.

A9. Mesurau eraill i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch fel gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau ffioedd a mynediad, cefnogi'r Bartneriaeth Ymggyrredd yn Ehangach ranbarthol a/neu ddarpariaeth berthnasol arall

(nodwch beth yw'r mesurau hyn).

Mae'r Grŵp yn hollol ymrwymedig i ehangu mynediad a sicrhau cyfle cyfartal ac yn ddiweddar mae wedi penodi Cydlynnydd i oruchwylio'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad. Mae'r rôl yn cynnwys cydweithio â Grwpiau Ymggyrredd yn Ehangach De-orllewin a Chanolbarth/Gogledd Cymru, a datblygu ehangu mynediad ymhellach trwy:

- Integreiddio ag ysgolion a chymunedau lleol.
- Dod ag unigolion i mewn i'r amgylchedd addysg uwch ar gyfer sesiynau rhagflas.
- Cynyddu gweladwyedd cyfleoedd ar gyfer dysgu am addysg uwch.

CATEGORïAU DARPARIAETH: HYRWYDDO MESURAU ADDYSG UWCH I GYFLWYNO:

Y rhagolwg canrannol ar gyfer gwariant ar hyrwyddo yw 32.7% o'r £107,000. Cyflwynir manylion gwariant ar gyfer hyrwyddo addysg uwch fesul categori gwariant yn Nhabl 13.

Tabl 13: Gwariant ar hyrwyddo addysg uwch fesul categori gwariant

Categori gwariant i:	2019/20 £	2018/19 £
1. ennydd diddordeb cyrff a chymunedau, preifat, cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru'n fwy effeithiol	4,500	4,250
2. gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwyr	15,000	14,875
3. cryfhau cyflogadwyedd graddediogion o Gymru	3,500	3,889
4. hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru'n fwy effeithiol yn rhynghwladol		0
5. cyflwyno addysg uwch gynaliadwy		0
6. codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr	12,000	10,175
7. arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad		0
Cyfanswm	35,000	33,189
Canran y gwariant a ragwelir sydd i'w gwario ar Hyrwyddo Addysg Uwch	32.7%	36.1%

Bydd hyrwyddo addysg uwch fesul categori gwariant (B1 - B7) yn cynnwys:

B1. Ennydd diddordeb cyrff a chymunedau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru'n fwy effeithiol;

Mae gan y Grŵp gysylltiadau agor ag amrywiaeth o gyflogwyr. Yn sgil ailffocysu Uned Datblygu Busnes y Grŵp yn ddiweddar, mae'r Grŵp yn anelu at ennyn diddordeb cyflogwyr yn fwy effeithiol i wella cyfleoedd a sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr gan gynnwys:

- Gweithgareddau ennyn diddordeb cyflogwyr (dadansoddiad anghenion, gwella'r cwricwlwm, darlithoedd, ymweliadau)
- Cryfhau cyfleoedd lleoliadau gwaith a gwirfoddoli ar gyfer myfyrwyr ar draws yr holl rhaglenni addysg uwch
- Cynnal ffeiriau cyflogaeth ar y campws gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol yn bresennol i greu dyhead.

B2. Gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd y profiad i fyfyrwyr;

Bydd y Grŵp yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o dechnolegau dysgu, cyfleusterau TG a'i amgylcheddau dysgu trwy rhaglen cynnal a chadw ystadau barhaus. Bydd y Grŵp yn parhau â gwaith y Prosiect Gwella Dysgu ac Addysgu i gyflwyno dysgu ac addysgu o safon uchel trwy gryfhau'r canlynol ymhellach:

- DPP ar gyfer staff
- System dysgu ac addysgu arsylwi cymheiriaid
- Monitro ac ymateb i lefelau boddhad myfyrwyr

Trwy gryfhau'r systemau cyfranogiad myfyrwyr, adborth myfyrwyr, grwpiau ffocws a gweithgarwch VocalEyes, bydd gan y Grŵp ystod o wybodaeth i'w hystyried ac i gefnogi gwelliannau mewn darpariaeth a'r profiad i fyfyrwyr. Bydd y Grŵp hefyd yn defnyddio arolygon mewnol, e.e. yr arolwg cofrestru a chyflwyno er mwyn adolygu darpariaeth a chyfeirio gwelliant parhaus.

B3. Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru

Mae'r Grŵp yn anelu at gryfhau cyflogadwyedd trwy amrywiaeth o fecanweithiau a amlinellir isod:

- Ffeiriau cyflogaeth
- Cynllun mentora alumni
- Datblygu modiwlau dwyieithog
- Darpariaeth tiwtorialau cyfrwng Cymraeg ar sail wythnosol
- Rheoli a monitro lleoliadau gwaith
- Ymwreiddio sgiliau a phrofiad cyflogadwyedd trwy gyflwyno tiwtorialau a'r cwricwlwm
- Cyllid i gefnogi gweithgareddau'r Undeb Myfyrwyr (sy'n cynnwys hyrwyddo cyflogadwyedd).

B4. Hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol;

Bydd y Grŵp yn parhau i gymryd rhan a buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gwella ei enw da. Bydd hyn yn ei dro yn hyrwyddo addysg uwch yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys:

- Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Prifathro Cynorthwyol, Gweithrediadau Byd-eang
- Hyrwyddo Addysg Uwch trwy'r Prifathro Cynorthwyol, Gweithrediadau Byd-eang
- Ymwneud â gweithgareddau ynglŷn ag enw da (e.e. TEF).
- Gweithgareddau monitro a chydymffurfio sy'n gysylltiedig â Fisâu a Mewnfudo y DU.

B5. Cyflwyno addysg uwch gynaliadwy;

Hyrwyddir addysg uwch gynaliadwy trwy greu carfannau ac ymdrin â thangynrychiolaeth ar lefelau cymwysterau is, gyda llwybrau clir trwodd i astudiaeth ar lefel uwch. Mae'n dibynnu hefyd ar fecanweithiau sicrhau ansawdd cryfion a buddsoddiad parhaus i sicrhau bod rhaglenni'n parhau i

ganolbwyntio ar ddiwydiant ac yn addas i'r diben o ran cefnogi myfyrwyr i bontio i gyflogaeth. Cyflawnir cynladwyedd trwy:

- Fuddsoddi mewn adnoddau a chyfleusterau i wella cyflwyniad y cwricwlwm
- Ennyn diddordeb cyflogwyr i sicrhau cwricwlwm sy'n addas i'r diben
- Mekanweithiau sicrhau ansawdd cryfion a chadarn
- DPP ar gyfer staff
- Hyrwyddo llwybrau o addysg bellach i addysg uwch, o lefelau 3/4 i lefelau 5/6
- Ymwneud â gweithgareddau magu enw da.

B6. Codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr.

Mae'r Grŵp yn gweithio gydag ysgolion, y gymuned leol a myfyrwyr ar lefelau astudio is i hyrwyddo gwerth addysg uwch. Cyflawnir hyn trwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys gweithgareddau marchnata, gweithgareddau ehangu mynediad, digwyddiadau agored, sesiynau rhagflas, nosweithiau gwybodaeth, cyfryngau cymdeithasol a gweithgarwch gwefan. Mae'r Grŵp yn sicrhau gwybodaeth ac arweiniad o safon uchel. Mae digwyddiad graddio blynyddol dathliadol y Grŵp yn hyrwyddo'r rhai sy'n llwyddo mewn addysg uwch a thrwy astudiaethau achos myfyrwyr mae gwerth addysg uwch yn cael ei hyrwyddo'n gyffredinol ac ymysg y rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Mae'r defnydd o amrywiaeth o gyfryngau'n helpu mwyafu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch.

B7. Mesurau eraill i gefnogi hyrwyddo addysg uwch fel gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau ffioedd a mynediad, cefnogi'r Bartneriaeth Ymggyraedd yn Ehangach ranbarthol a/neu ddarpariaeth berthnasol arall (nodwch beth yw'r mesurau hyn).

Mae'r Grŵp yn hollol ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch i grwpiau a dangynrychiolir ac yn ddiweddar mae wedi penodi Cydlynnydd i oruchwylio'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad. Mae'r rôl yn cynnwys cydweithio â Grwpiau Ymggyraedd yn Ehangach De-orllewin a Chanolbarth/Gogledd Cymru, a datblygu ehangu mynediad ymhellach trwy:

- Integreiddio ag ysgolion a chymunedau lleol.
- Dod ag unigolion i mewn i'r amgylchedd addysg uwch ar gyfer sesiynau rhagflas.
- Cynyddu gweladwyedd cyfleoedd ar gyfer dysgu am addysg uwch.

Monitro cynnydd a chydymffurfiad â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae gan y Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwella Addysg Uwch (HEQEMG) gyfrifoldeb dros weithredu a goruchwylio cyflwyno gweithgareddau, digwyddiadau ac ymyraethau i gwrdd â thargedau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hadnabod yn y cynllun datblygu ansawdd Addysg Uwch a/neu brosiectau comisiynu gwelliannau i sicrhau y gellir cyflawni targedau'r cynllun ffioedd a mynediad. Mae'r HEQEMG yn monitro cwblhau camau gweithredu'r cynllun datblygu ansawdd a'r prosiectau gwella trwy eu cyfarfod tymhorol yn ogystal â thargedau cynllun ffioedd a mynediad a ddyrennir mewn manau eraill.

Adroddir dros dro ar gynnydd yn erbyn targedau'r cynllun ffioedd a mynediad i Grŵp Safonau a Rheoli Pherfformiad y Coleg. Mae hwn a'r cyfarfod HEQEMG wedi'u goruchwylio gan yr Is-brifathro, Gwasanaethau Academaidd. Mae'r Grŵp Rheoli Safonau a Pherfformiad yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ac yn derbyn cofnodion cyfarfodydd y grŵp rheoli ac maent hwy a Llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau dros dro ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn targedau'r cynllun ffioedd a mynediad yn ystod y flwyddyn ac yn derbyn y datganiad monitro blynyddol yn y mis Hydref dilynol sy'n adolygu perfformiad yn erbyn

targedau'r cynllun ffioedd a mynediad i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar 2 Gorffennaf 2018.